

**CYNGOR TREF RHUTHUN  
RUTHIN TOWN COUNCIL**



Cofnodion [DRAFFT] cyfarfod y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhalwyd drwy ffyrf hybrid  
**nos Lun 5 o Ragfyr 2022 am 7:30p.m**

**YN** Cynghorwyr Anne Roberts (Cadeirydd), Stephen Beach, Peter Daniels, Christine  
**BRESENNOL:** Ellis, Gavin Harris, Menna Jones, Rachel Ryland, Lisa Thomas a Mike van der  
Eijk.  
Siân Clark – Clerc y Dref a Marian Rees - Cyfieithydd

**54. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbynwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorydd Oliver Bradley-Hughes.

**55. DATGAN BUDDIANNAU**

Dim.

**56. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**PENDERFYNWYD:** bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 14 o Dachwedd  
2022 yn cael eu cadarnhau fel cofnod cywir.

**57. MATERION YN CODI**

*Cofnod 46 a 40: Meinciau'r Dref* – Dywedwyd wrth yr aelodau bod y Clerc wedi cysylltu gyda  
chwmni lleol i symud y ddwy fainc yn Nhrem y Foel a Ffordd Corwen fel mesur dros dro.

**58. CWNINGAR Y CASTELL**

Roedd disgwyl i adroddiad ar yr arolwg topograffig diweddar a wnaed gan y Cyngor Sir ar wal Nant  
Clwyd y Dre sy'n ffinio â Chwningar y Castell gael ei gyflwyno cyn y Nadolig. Roedd y Cyngor Tref  
wedi gofyn i Gyngor Sir Ddinbych, trwy'r Cynghorwyr lleol, i'w hysbysu am gynnwys a chanlyniad yr  
adroddiad. Gofynnwyd hefyd am ddatganiad cyhoeddus gan Gyngor Sir Ddinbych i hysbysu  
trigolion am y rhesymau pam bod Cwningar y Castell yn parhau i fod ar gau.

**PENDERFYNWYD:** (i) nodi y disgwylir canlyniad yr adroddiad arolwg topograffig; (ii) gofyn am gopi  
o adroddiad yr arolwg; a (iii) gofyn i Gyngor Sir Ddinbych gyhoeddi datganiad cyhoeddus i hysbysu  
trigolion bod Cwningar y Castell yn parhau i fod ar gau.

**59. PARATOADAU NADOLIG**

Cyfeiriodd yr Aelodau at y gwahanol weithgareddau a digwyddiadau Nadolig a gynhaliwyd y dydd  
Sadwrn blaenorol yn y dref, gan gynnwys cynnau goleuadau'r Goeden Nadolig gan y Maer.  
Nodwyd er mwyn atal difrod a fandaliaeth i'r Goeden Nadolig a'r goleuadau, bod system teledu  
cylch cyfyng (TCC) dros dro wedi ei gosod ar Gloc y Dref yn canolbwyntio ar y goeden, a bod Polisi  
TCC ac Asesiad Effaith Gwarchod Data mewn lle, yn unol â'r gofynion Swyddfa'r Comisiynydd  
Gwybodaeth. Roedd y System TCC dros dro wedi'i chefnogi a'i chyflenwi gan KMT Electrical.  
Oherwydd amserlenni cyflenwyr, ni fyddai'r nawdd a ymrwymwyd gan Clogau eleni yn  
canolbwyntio ar y Goeden Nadolig a'r goleuadau, ond byddai trafodaethau'n cael eu cynnal i  
ystyried cyfleoedd noddï eraill yn y misoedd i ddod. Roedd y Cyngor Tref wedi gosod pedair baner  
Nadolig Llawn / Merry Christmas newydd ar y rhwystrau diogelwch o amgylch y Goeden Nadolig.

**PENDERFYNWYD:** nodi'r diweddariad ar faterion y Nadolig gan gynnwys cyflwyno'r polisi TCC.

**60. TORRI GLASWELLT**

Rhoddyd ystyriaeth gyffredinol gan yr Aelodau i gyfrifoldeb y Cyngor Tref am dorri gwair rhai  
mannau cyhoeddus o fewn y dref. Roedd y rhesymeg dros ddyrannu'r ardaloedd torri gwair rhwng

y Cyngor Tref a Chyngor Sir Ddinbych yn benodol yn aneglur, ac roedd yn debygol o fod yn fater etifeddiaeth hirsefydlog. Dywedodd yr Aelodau bod angen trafodaeth gyda Chyngor Sir Ddinbych i ystyried i) perchnogaeth/cyfrifoldeb o'r ardaloedd glaswelltog cyhoeddus a oruchwylir ar hyn o bryd gan y Cyngor Tref; ii) arbedion effeithlonrwydd posibl ar gyfer torri gwair ar y cyd yn y dref; ac iii) asesiad o ardaloedd bioamrywiaeth posibl. Gofynnodd yr aelodau am gyfarfod rhwng swyddogion Cyngor Sir Ddinbych a chynrychiolwyr o'r Cyngor Tref i hysbysu a datblygu'r materion uchod.

Nodwyd bod Eglwys San Pedr yn gyfrifol am gynnal a chadw Church Walks.

**PENDERFYNWYD:** *cytuno i gynnal cyfarfod rhwng swyddogion Cyngor Sir Ddinbych a chynrychiolwyr o'r Cyngor Tref. ystyried i) perchnogaeth/cyfrifoldeb y manau glaswelltog cyhoeddus a oruchwylir ar hyn o bryd gan y Cyngor Tref; ii) arbedion effeithlonrwydd posibl ar gyfer torri gwair ar y cyd yn y dref; ac iii) asesiad o ardaloedd bioamrywiaeth posibl.*

#### **61. AMCANGYFRIF ARIANNOL: BLWYDDYN ARIANNOL 2023-24**

Mae'r aelodau'n rhoi ystyriaeth gychwynnol i wariant arfaethedig y Pwyllgor Amwynderau ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2023-24 er mwyn helpu i lywio'r broses o bennu'r gyllideb. Darparodd y Clerc a'r Cynghorydd Harris drosolwg o'r penawdau cyllideb presennol a'r dyraniadau, gan gynnwys sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn a chynghorwyd yr Aelodau bod gwaith yn cael ei wneud i ddiffinio llinellau cyllideb 2023-24 yn well. Byddai rhagor o fanylion yn cael eu darparu i'w hystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Ionawr 2023.

**PENDERFYNWYD:** *nodi'r trosolwg a ddarparwyd ac y byddai rhagor o fanylion yn cael eu darparu yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Ionawr 2023.*

#### **62. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**PENDERFYNWYD:** *mai nos Lun, 16 o Ionawr am 7.30pm y cynhelir y cyfarfod nesaf.*